# Adroddiad effaith: 2021 i 2022

Trosolwg o'r hyn rydyn ni wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, yn erbyn ein wyth canlyniad cenedlaethol.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Mehefin 2023

Diweddariad olaf: 29 Mehefin 2023

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-21-22 am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o’r hyn rydyn ni wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn, yn erbyn ein wyth canlyniad cenedlaethol.

## Rhagair gan ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr

Mae 2021 i 2022 wedi bod yn flwyddyn hynod heriol arall i’r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.

Rydyn ni eisiau diolch i bawb sy’n gweithio o fewn y sectorau gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a gofal plant am eu hymrwymiad a’u proffesiynoldeb mewn amgylchiadau anodd.

Bu heriau penodol o ran denu, recriwtio a chadw pobl â’r rhinweddau a’r sgiliau cywir ac mae’r rheini’n dal i fod yn amlwg iawn heddiw.

Rydyn ni’n parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio yn deg ac yn gymesur. Rydyn ni hefyd yn parhau i addasu a gwella ein gwaith yn y maes hwn.

### Parhau i ddarllen y rhagair

Dangos

### Meysydd o dan sylw

Rydyn ni wedi canolbwyntio ar lesiant y gweithlu, datblygu’r gweithlu, darparu cymorth i’r rhai sy’n darparu gwasanaethau ac ar gryfhau ein rôl ar gyfer blaenoriaethu ymchwil a chasglu data a thystiolaeth.

Bydd darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar yn parhau i ddatblygu, oherwydd effaith barhaol y pandemig, pwysau economaidd

ac anghenion cymunedau.

Rydyn ni’n parhau i wrando ar y gweithlu, cyflogwyr ac arweinwyr strategol. Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod yn deall yr heriau hyn.

Rydyn ni hefyd eisiau cydnabod cyfleoedd i gefnogi’r sectorau i adfer a sefydlogi ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

Mae'r gweithlu yn dal i gael trafferth gyda'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig. Mae'r newidiadau hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar staff, gan arwain at gynnydd mewn straen a llai o forâl a boddhad yn y gwaith.

Gwelsom hefyd a chyfrannu at waith partneriaeth cryfach rhwng y GIG a llywodraeth leol yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cefnogi uchelgeisiau *Cymru Iachach* a’n strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu a gofalu am oedolion, plant, eu teuluoedd a gofalwyr.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn helpu pobl i fyw'r bywydau y maen nhw eu heisiau, gan gefnogi pobl i ddatblygu, aros yn weithgar ac annibynno. Maen nhw hefyd yn helpu pobl i aros yn ddiogel ac wedi'u cysylltu'n dda â'u cymuned a rhwydweithiau ehangach.

Mae gweithwyr blynyddoedd cynnar yn helpu i roi dechrau gwych mewn bywyd i'n plant ac yn darparu cefnogaeth werthfawr i rieni. Maen nhw’n gwneud hyn ochr yn ochr â theulu, ffrindiau, gwirfoddolwyr a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

## Lleihau effaith anghydraddoldeb

Rydyn ni wedi gweld newid sylfaenol yn ein dealltwriaeth o sut mae anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac allgáu yn rhan annatod o'n byd. Fel cymdeithas mae angen inni ymateb i’r ddealltwriaeth newydd honno.

Mae systemau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar cryf yng Nghymru yn sicrhau ein bod yn gallu lleihau effaith anfantais tlodi, esgeulustod, salwch, anabledd, hil neu nodweddion gwarchodedig eraill.

Mae'n hanfodol, felly, bod y gwasanaethau hyn yn cael eu gwella i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru.

Mae’r cyfrifiad diweddar yn darparu data ar boblogaeth sy’n tyfu ac yn heneiddio yng Nghymru. Mae'r duedd o boblogaeth sy'n heneiddio wedi parhau, gyda mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn. Bydd maint a chymhlethdod anghenion pobl yn cynyddu’r galw am wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

## Cefnogi gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae gwerthusiad o weithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at yr heriau a wynebir wrth drawsnewid gwasanaethau.

Edrychodd y gwerthusiad ar ba effaith y mae’r ddeddfwriaeth wedi’i chael ar ansawdd bywyd a llesiant y rhai sy’n derbyn gofal a chymorth.

Mae'r astudiaeth yn nodi y gall newidiadau i lesiant gymryd amser hir iawn i ddod yn weladwy.

Fodd bynnag, ychydig iawn o effeithiau llesiant cadarnhaol a nodwyd gan gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon yn gysylltiedig â’u profiadau gyda gwasanaethau cymdeithasol.

Lle mae effeithiau cadarnhaol wedi digwydd, roeddent yn aml oherwydd gofal a chymorth da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Rydyn ni’n cefnogi’r dull hwn drwy ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r rhain ar gael i weithwyr proffesiynol ledled Cymru.

## Gweithio gyda’n gilydd

Fel sefydliad arweinyddiaeth cenedlaethol, mae gweithio gydag eraill yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Mae partneriaethau wrth wraidd ein gwaith.

Bydd hyn yn cynnwys cael sgyrsiau â’r bobl y mae ein gwaith yn effeithio arnyn nhw. Rydyn ni eisiau canfod beth sy’n bwysig iddyn nhw a myfyrio ar eu barn cyn gwneud penderfyniadau allweddol.

Rydyn ni’n cydnabod bod yr atebion i lawer o’r problemau hyn yn ymwneud â pholisi. Mae’r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar, ailgynllunio systemau, tâl a pharch cydradd.

Rydyn ni’n parhau i ddarparu tystiolaeth, mewnwelediad a chyngor proffesiynol i swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cefnogi eu huchelgeisiau i ddod o hyd i atebion.

Nid oes gennym yr holl ddata sydd ei angen arnom i fesur ein heffaith yn llawn. Rydyn ni’n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i benderfynu pa ddata fydd fwyaf ystyrlon i helpu’r sector i wella’n barhaus.

Rydyn ni’n bwriadu datblygu ein porth data a threialu arolwg o’r gweithlu yn ystod 2022 i 2023. Bydd hyn yn rhoi cyfle inni glywed yn uniongyrchol gan y rheng flaen, yn ogystal â’u rheolwyr a’u harweinwyr.

Bydd y ffynhonnell ddata gyfoethog hon yn cael ei defnyddio i lywio ein gwaith. Gall hefyd o bosibl lywio gwaith eraill, lle nad oes gennym y cylch gwaith ein hunain.

**Mick Giannasi, Cadeirydd a Sue Evans, Prif Weithredwr**

## Effaith yn ôl canlyniad cenedlaethol

Darganfyddwch beth rydyn ni wedi ei gyflawni o dan pob canlyniad cenedlaethol:

- Llesiant gwell ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar
- Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr
- Ymarfer a pholisi gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar arloesi, ymchwil a data o'r radd flaenaf, a mathau eraill o dystiolaeth
- Gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sydd â hyder y cyhoedd
- Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n denu, recriwtio a chadw pobl â'r gwerthoedd cywir i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n ymgorffori ac yn darparu dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau
- Rydyn ni’n darparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o'r radd flaenaf.

## Gwaith corfforaethol wedi’i gwblhau yn ystod y flwyddyn

## Cynllun Strategol

Yn dilyn ymgynghoriad ar ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol cymeradwyodd ein Bwrdd *Ein cynllun strategol ar gyfer 2022 i 2027*.

Mae’r cynllun yn nodi ein blaenoriaethau a’n cynigion ar gyfer yr hyn yr ydym am ei gyflawni a ble rydym yn awgrymu ein bod yn canolbwyntio ein hegni.

Mae hefyd yn egluro sut rydyn ni am weithio gyda phobl dros y pum mlynedd nesaf i wireddu ein gweledigaeth.

Mae cryn dipyn o waith wedi’i wneud i sicrhau bod ein hadnoddau ariannol yn adlewyrchu ein huchelgeisiau i gefnogi diwygiadau i wella darpariaeth. Bydd hyn yn cynyddu cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector.

Rydyn ni’n parhau i esblygu fel sefydliad ac mae 2021 i 2022 wedi bod yn flwyddyn o atgyfnerthu a datblygu.

Rydyn ni wedi gweithio i wneud yn siŵr bod gennym wasanaethau effeithiol ac effeithlon ar gyfer ein cwsmeriaid.

Rydyn ni wedi recriwtio 40 o weithwyr newydd i ddatblygu ffrydiau gwaith presennol a bwrw ymlaen â meysydd gwaith newydd.

Rydyn ni wedi diwygio a buddsoddi mewn rhai o’n prosesau a’n seilwaith i wella effeithlonrwydd gwasanaethau.

## Ymgysylltu

- Mwy nag 1.8m o ymweliadau â thudalennau gwefan
- Y nifer uchaf erioed o ymweliadau â thudalennau a gofnodwyd ym mis Chwefror 2022: 175,300

- Mwy na 6,500 o ddilynwyr ar Twitter. Mae gennym ni hefyd 4,500 o ddilynwyr ar ein tudalen Facebook, sy'n cael ei graddio'n 5 allan o 5 gan bobl sy'n ymweld â hi.

## Digidol o Ddewis

Fe wnaethom ni ddatblygu ein strategaeth ddigidol a’n hymagwedd at hyfforddiant a dysgu digidol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein yn cydfynd â'n cynulleidfaoedd cynyddol. Mae angen i’r gwasanaethau fodloni pob un o'u hanghenion o ran cynnwys, hygyrchedd a phrofiad.

Wrth i ni symud ymlaen, ein nod ydy bod ein defnyddwyr yn dewiss ‘digidol o ddewis’. Byddwn ni’n parhau i gefnogi’r rhai sydd angen defnyddio ein gwasanaeth trwy ddulliau amgen.

## Edrych i'r Dyfodol

Rydyn ni'n myfyrio ar ein cynnydd bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni’n dysgu’n barhaus a bod ein hadnoddau’n cael eu defnyddio i’r effaith orau.

Gwyddom o’n rhaglen Gwobrau, fod arfer rhagorol yng Nghymru.

Byddwn ni'n parhau i gefnogi’r gwaith o fabwysiadu a lledaenu’r arfer hwnnw drwy ein harweiniad a’n cymorth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar.